



Eich llais mewn iechyd | Your voice in health
a gofal cymdeithasol | and social care

Ein tystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd:

Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Iechyd

Am Llais

Llais yw'r corff statudol annibynnol sy'n adlewyrchu barn ac yn cynrychioli buddiannau pobl sy'n byw yng Nghymru mewn perthynas â'u Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'u gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Rydym yn gweithio'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed ac yn cael eu defnyddio i lywio'r gwaith o gynllunio, dylunio, datblygu a darparu gwasanaethau. Rydym yn clywed gan bobl drwy ymgysylltu mewn cymunedau, gan gynnwys ymweliadau â mannau lle mae pobl yn derbyn gofal. Defnyddiwn yr hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthym i bwysu am welliannau, ac rydym yn darparu gwasanaeth eiriolaeth cwynion am ddim, annibynnol a chyfrinachol.

Mae'r dystiolaeth hon yn seiliedig ar yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym drwy ein gwaith ymgysylltu cymunedol a'n gwasanaeth eiriolaeth cwynion, yn ogystal â'n profiad o weithio gyda chyrff y GIG yng Nghymru a Lloegr.

Mae'n adlewyrchu'n benodol brofiadau:

- pobl sy'n byw mewn cymunedau ar y ffin ac sy'n derbyn gofal y GIG yn Lloegr yn rheolaidd;
- pobl o bob rhan o Gymru sy'n dibynnu ar wasanaethau arbenigol iawn a ddarperir yn Lloegr;

- pobl sydd wedi'u hatgyfeirio at ddarparwyr yn Lloegr drwy drefniadau sydd wedi'u bwriadu i leihau rhestrau aros GIG Cymru;
- pobl y mae eu triniaeth, eu rhyddhau o ofal neu eu gofal parhaus yn cynnwys gwasanaethau ar ddwy ochr y ffin; a
- phobl sydd wedi ceisio cymorth i godi pryderon ynghylch gofal trawsffiniol.

Ein trosolwg

I Llais, y cwestiwn allweddol mewn perthynas â'r diwygiadau a nodir ym Mil Iechyd y DU yw a fyddant yn gwneud gofal yn fwy diogel, yn decach, yn haws ei lywio ac yn fwy integredig i bobl sy'n byw yng Nghymru ac y mae eu gofal yn croesi ffiniau sefydliadol a chenedlaethol.

Rydym yn cefnogi amcanion y Bil Iechyd lle mae ganddynt y potensial i wneud gofal yn fwy diogel, yn fwy cysylltiedig ag yn fwy ymatebol i brofiadau pobl. Rydym yn croesawu'r elfennau adeiladol defnyddiol yn y Bil, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â'r Cofnod Claf Sengl, diogelwch cleifion, ystyriaeth o gymunedau ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr, a llais y claf.

I bobl sy'n byw yng Nghymru, gofal iechyd yw gofal iechyd trawsffiniol yn syml. Nid yw pobl yn gweld y GIG fel cyfres o sefydliadau, comisiynwyr nac awdurdodaethau ar wahân, er y gall eu gofal yn rhy aml deimlo'n dameidiog ar draws y ffiniau hynny. Maent yn disgwyl i wasanaethau gydweithio'n effeithiol, i wybodaeth eu dilyn, ac i gyfrifoldeb fod yn glir, yn enwedig os bydd rhywbeth yn mynd o'i le.

Mae llawer o bobl sy'n byw yng Nghymru yn defnyddio gwasanaethau'r GIG yn Lloegr (tua 15-20%), gyda chyfrannau llawer uwch mewn rhai cymunedau ar y ffin.

Gan fod y Bil wedi'i ddylunio'n bennaf o amgylch system iechyd Lloegr, ni fydd ei fanteision yn ymestyn yn awtomatig i bobl sy'n byw yng Nghymru ac sy'n derbyn gofal gan ddarparwyr yn Lloegr. Ni fydd y Bil ar ei ben ei hun yn darparu fframwaith cyflawn ar gyfer trigolion Cymru sy'n derbyn gofal yn Lloegr.

I grynhoi, mae'r Bil yn cynnig cyfleoedd pwysig i gryfhau diogelwch cleifion, llais annibynnol y claf ac ymatebolrwydd ar draws gwasanaethau iechyd. Rhaid i'w weithrediad gael ei ategu gan drefniadau clir rhwng Cymru a Lloegr ar gyfer rhannu gwybodaeth, diogelwch cleifion, atebolrwydd, llais y claf a

llwybrau ar gyfer codi pryderon, ynghyd â mesurau diogelu trawsffiniol effeithiol a gweithredu cydgysylltiedig gan lywodraethau a systemau iechyd ar ddwy ochr y ffin.

Ni ddylai cleifion Cymreig golli diogelwch, eglurder, hawliau, llais nac atebolrwydd oherwydd bod eu gofal yn croesi ffin, ac ni ddylid disgwyl iddynt ddeall na llywio'r ffiniau sefydliadol sydd y tu ôl i'w gofal.

Yn y pen draw, dim ond os yw llais y claf yn ganolog i'r diwygiadau yn Lloegr y bydd y Bil yn gwella gofal, ac os yw'r llais hwnnw'n cynnwys pobl sy'n byw yng Nghymru y gallai'r diwygiadau hynny effeithio ar eu gofal, eu diogelwch a'u profiad.

Mae sefydliadau eraill sy'n cynrychioli cleifion wedi codi pryderon tebyg. Er enghraifft, mae Cymdeithas y Cleifion wedi croesawu uchelgais y Bil, gan dynnu sylw ar yr un pryd at yr angen am sicrwydd cryfach ynghylch llais annibynnol y claf ac am fwy o eglurder ynghylch gweithredu, llywodraethu data a threfniadau atebolrwydd.

Yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym am ofal iechyd trawsffiniol

Mae gofal iechyd trawsffiniol yn nodwedd strwythurol o ofal iechyd yng Nghymru, nid yn fater ymylol. Mae'n arbennig o bwysig ym Mhowys a gogledd-ddwyrain Cymru, lle mae daearyddiaeth a llwybrau clinigol sefydledig yn aml yn golygu mai'r gwasanaeth agosaf neu fwyaf priodol yw un yn Lloegr. Mae hefyd yn bwysig i bobl ledled Cymru sydd angen gofal arbenigol iawn a ddarperir yn Lloegr.

Mae pobl yn gyson yn rhannu eu profiadau o ofal iechyd trawsffiniol mewn ffordd sy'n dangos cymysgedd o ofal clinigol da ac anawsterau sylweddol ar lefel y system. Y prif faterion a rannwyd gyda ni yw:

- ansicrwydd ynghylch hawliau a chymhwysedd, a pha un a yw trefniadau Cymru neu Loegr yn berthnasol;

- systemau digidol nad ydynt yn cyfathrebu â'i gilydd, sy'n golygu nad yw gwybodaeth yn dilyn claf yn hawdd nac yn rheolaidd ar hyd eu llwybr gofal, gan arwain at brofion ailadroddus a'r angen i bobl adrodd eu stori dro ar ôl tro;
- atgyfeiriadau sydd wedi'u colli neu wedi'u hoedi, canlyniadau profion coll, a gwybodaeth rhyddhau nad yw'n cyrraedd gwasanaethau yng Nghymru;
- gwahaniaethau mewn polisïau amseroedd aros a mynediad at wasanaethau yn dibynnu ar god post;
- teithiau hir, anawsterau trafnidiaeth a chostau ychwanegol i gleifion a'u teuluoedd;
- darpariaeth gyfyngedig ac anghyson o wasanaethau Cymraeg;
- trefniadau mwy cymhleth ar gyfer cwynion ac adfer tegwch; ac
- ansicrwydd ynghylch pwy sy'n gyfrifol am ddatrys problemau a sicrhau gwelliannau.

Nid y broblem yw bod gan Gymru a Lloegr systemau iechyd gwahanol. Mae datganoli yn dod â blaenoriaethau a pholisïau gwahanol yn ei sgil. Y cwestiwn yw a yw'r gwahaniaethau hynny'n cael eu cynllunio, eu hesbonio a'u rheoli mewn ffordd sy'n gweithio i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau ar draws y ffin. Lle mae cydgysylltu'n wan, gall y gwahaniaethau hynny arwain at ddryswch, oedi, anghydraddoldeb a risgiau y gellid eu hosgoi i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau.

Rydym eisoes wedi darparu tystiolaeth i Bwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin ynghylch yr heriau y mae pobl yn eu hwynebu pan fo eu gofal iechyd yn cael ei ddarparu yng Nghymru ac yn Lloegr.

Ionawr 2025 [Tystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cymreig ar Ofal Iechyd Trawsffiniol | Llais](#)

Mawrth 2026 [Gofal iechyd trawsffiniol: yr heriau allweddol i bobl sy'n byw yng Nghymru sy'n cael gofal y GIG yn Lloegr | Llais](#)

Yr hyn y mae Llais yn ei groesawu yn y Bil

Cydnabod cymunedau ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr

Mae Llais yn croesawu'r ddyletswydd arfaethedig ar Fyrddau Gofal Integredig i roi sylw i effaith penderfyniadau comisiynu ar gymunedau ar y ffin yng Nghymru. Mae hyn yn gydnabyddiaeth bwysig y gall penderfyniadau a wneir gan gyrff yn Lloegr gael effaith sylweddol ar bobl sy'n byw yng Nghymru.

Mae'r ddarpariaeth yn creu cyfle i wneud ystyriaeth o effeithiau trawsffiniol yn arfer safonol, yn hytrach na dibynnu ar ewyllys da neu berthnasau lleol. Bydd ei heffeithiolrwydd yn dibynnu ar sut y caiff cydymffurfiaeth ei monitro, pa dystiolaeth y disgwylir i Fyrddau Gofal Integredig ei hystyried, a sut y mae sefydliadau a chleifion Cymru yn cael eu cynnwys.

Y Cofnod Claf Sengl a gwell rhannu gwybodaeth

Mae'r fframwaith galluogi ar gyfer Cofnod Claf Sengl yn cynnig potensial sylweddol i fynd i'r afael â phroblem hir sefydlog sy'n effeithio ar ddiogelwch a phrofiad cleifion. Mae pobl yn aml yn dweud wrthym fod yn rhaid iddynt ailadrodd eu stori dro ar ôl tro oherwydd na all gwasanaethau gael mynediad at gofnodion a gedwir mewn mannau eraill. Maent yn disgrifio atgyfeiriadau'n mynd ar goll, canlyniadau profion heb gyrraedd y gwasanaeth cywir, profion gwaed a sganiau'n cael eu hailadrodd, gwybodaeth rhyddhau heb gyrraedd meddygon teulu yng Nghymru, a chlinigwyr yn methu cael mynediad at wybodaeth am feddyginiaethau, alergeddau, diogelu neu gynlluniau gofal

Nid yw pobl yn gweld rhannu gwybodaeth rhwng sefydliadau fel mater technegol. Maent yn ei weld fel disgwyliad sylfaenol o wasanaeth iechyd modern.

Mae rhai pobl wedi teimlo bod angen iddynt gario cofnodion papur eu hunain er mwyn sicrhau bod gwybodaeth bwysig ar gael pan fyddant yn mynychu apwyntiadau.

Pan na all gwybodaeth deithio gyda'r unigolyn, diogelwch pobl, nid eu profiad yn unig, sy'n cael ei effeithio. Gallai cofnod sy'n gweithio ar draws systemau leihau dyblygu, cefnogi gofal clinigol mwy diogel, cyflymu diagnosis a

rhyddhau, helpu gweithwyr proffesiynol i gydlyn gofal o amgylch anghenion unigol y person, a galluogi pobl i deimlo'n well gwybodus ac yn fwy cyfranogol yn eu gofal iechyd eu hunain.

Diwygio trefniadau diogelwch cleifion

Mae Llais yn croesawu ffocws y Bil ar ddiogelwch cleifion a dysgu. Mae'r diwygiadau'n creu cyfle i egluro cyfrifoldebau pan fydd llwybr claf yn ymestyn ar draws sefydliadau yng Nghymru a Lloegr, ac i gryfhau'r ffordd y caiff digwyddiadau a damweiniau y bu bron iddynt ddigwydd eu hymchwilio a'u defnyddio ar gyfer dysgu.

Mae hyn yn bwysig oherwydd nid yw pobl bob amser yn glir ynghylch ble i godi pryderon, pa gorff ddylai ymchwilio, na sut y bydd gwersi'n cael eu rhannu. Gall pobl deimlo eu bod yn cael eu pasio rhwng dwy system wahanol.

Dyletswyddau cryfach ynghylch llais y claf, profiad y claf wrth gynnwys y claf

Mae Llais yn cefnogi'r bwriad i roi mwy o bwyslais ar gasglu, dadansoddi a gweithredu ar brofiadau cleifion, ac i wneud y rhai sy'n gyfrifol am lunio gwasanaethau yn fwy atebol am sut y mae barn a phrofiadau pobl yn dylanwadu ar benderfyniadau.

Mae darpariaethau'r Bil ynghylch llais a chynnwys cleifion yn meddu ar y potensial i greu cysylltiad mwy uniongyrchol rhwng profiadau pobl a gwelliant mewn gwasanaethau.

Maent hefyd yn creu cyfle pwysig i sicrhau bod y cyfrifoldebau hynny'n ymestyn i bawb sy'n defnyddio gwasanaeth yn Lloegr, gan gynnwys pobl sy'n byw yng Nghymru.

Yr hyn sydd angen ei egluro neu ei chryfhau

Efallai na fydd rhai o'r materion isod yn gofyn am ddiwygiadau i'r Bil ei hun, ond maent yn hanfodol os yw'r diwygiadau i weithio'n ddiogel ac yn deg i bobl sy'n byw yng Nghymru. Mae angen mynd i'r afael â'r rhain yn glir drwy'r

cyfuniad priodol o ddeddfwriaeth, rheoliadau, canllawiau statudol, cytundebau rhwng Cymru a Lloegr, a threfniadau comisiynu Cymru.

Dylid cynnwys buddiannau Cymru, gan gynnwys Llais a phrofiadau pobl sy'n byw yng Nghymru, wrth ddatblygu unrhyw reoliadau, canllawiau statudol neu drefniadau gweithredu sy'n rhoi effaith i'r Bil lle gallai'r rhain effeithio ar ofal trawsffiniol.

Dylai'r prawf fod yn syml: dylai pobl sy'n byw yng Nghymru gael gwybodaeth glir, trosglwyddo cofnodion yn ddiogel, mynediad teg, cynrychiolaeth effeithiol, llwybrau cwynion cydgysylltiedig a thystiolaeth weladwy o ddysgu o'u profiadau, ni waeth ble y darperir eu gofal.

Ni ddylai fod angen i bobl ddeall sut y mae cyfrifoldebau'n cael eu rhannu rhwng sefydliadau, comisiynwyr neu systemau cenedlaethol er mwyn derbyn gofal diogel a chyd cysylltiedig nac i wybod ble i droi pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le.

Dylai'r ddyletswydd sy'n ymwneud â'r ffin gynnwys pob preswilydd yng Nghymru sy'n defnyddio gwasanaethau yn Lloegr

Er bod ffocws ar gymunedau ar y ffin yn cael ei groesawu, mae'n rhy gyfyngedig. Gall pobl sy'n byw yn unrhyw ran o Gymru dderbyn triniaeth arbenigol iawn, gofal canser, gofal trawma mawr, gwasanaethau clefydau prin neu wasanaethau trydyddol eraill yn Lloegr. Gallant wynebu'r un problemau o ran gwybodaeth, diogelwch, atebolrwydd a llais y claf heb fyw yn agos at y ffin.

Felly, dylai'r dyletswyddau perthnasol a'r trefniadau gweithredu ddilyn y claf yn hytrach na'i god post, a dylent fod yn berthnasol i bob person sy'n byw yng Nghymru ac sy'n derbyn gwasanaethau'r GIG yn Lloegr, nid yn unig i'r rhai sy'n byw mewn cymunedau sydd wedi'u diffinio'n ddaearyddol fel cymunedau ar y ffin.

Dylai cofnodion cleifion ddilyn pobl ar draws ffiniau

Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn egluro nad yw'r darpariaethau sy'n ymwneud â'r Cofnod Claf Sengl wedi'u cyfyngu i Loegr ac y gallant gefnogi mynediad gan ddarparwyr y tu allan i Loegr, gan gynnwys yng Nghymru. Mae'n nodi barn Llywodraeth y DU y byddai hyn yn dibynnu ar gytundeb polisi ac ar gael ateb technegol addas.

Mae Llais yn croesawu'r gydnabyddiaeth hon o ofal trawsffiniol. Fodd bynnag, rhaid i ddatblygiad y Cofnod Claf Sengl gynnwys gofyniad clir ar gyfer rhannu gwybodaeth yn ddi-dor rhwng systemau digidol yng Nghymru a Lloegr. Heb hyn, ni fydd y problemau y mae pobl yn eu hwynebu ar hyn o bryd yn gwella.

Dylid trin rhannu gwybodaeth mewn ffordd gydgysylltiedig fel gofyniad sy'n ymwneud â diogelwch a phrofiad y claf, nid fel prosiect technoleg yn unig.

Mae angen hefyd i hyn ddiogelu hawliau pobl mewn perthynas â'u data personol. Dylid egluro'n glir i bobl pa wybodaeth y gellir ei rhannu, pam y caiff ei rhannu, gyda phwy y gellir ei rhannu, sut y bydd yn cael ei diogelu, a pha ddewisiadau neu hawliau sydd ganddynt. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan gaiff gwybodaeth ei rhannu at ddibenion heblaw gofal uniongyrchol yr unigolyn.

Gall dulliau o ymdrin â rhannu data ehangach fod yn wahanol yng Nghymru a Lloegr, felly mae angen dealltwriaeth glir, cytundeb a mesurau diogelu ar draws y ddwy system.

Rhaid i fynediad digidol hefyd fod yn rhan o'r gwaith hwn. Dim ond os gall pobl eu hunain ddeall a defnyddio'r wybodaeth a gedwir amdanynt, ac os oes llwybrau amgen ar gael i'r rhai na allant neu nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau digidol, y bydd Cofnod Claf Sengl yn gwella gofal. Dylai diwygio digidol leihau rhwystrau, nid creu rhai newydd.

Rhaid i ddiogelwch cleifion trawsffiniol a dysgu o ddigwyddiadau weithio i bawb

Rhaid i ddiwygio cyrff diogelwch cleifion yn Lloegr ddarparu system glir ac effeithiol ar gyfer ymdrin â digwyddiadau sy'n cynnwys sefydliadau yng Nghymru a Lloegr. Dylai fod trefniadau clir ar waith ar gyfer digwyddiadau trawsffiniol a digwyddiadau y bu bron iddynt ddigwydd, gan gynnwys pwy sy'n arwain, pwy sy'n cyfrannu, sut y caiff pobl eu hysbysu, a sut y caiff gwersi eu rhannu a gweithredu arnynt.

Ni ellir ystyried diogelwch cleifion o fewn ffiniau sefydliadol yn unig pan fo gofal yn cael ei ddarparu'n rheolaidd ar draws Cymru a Lloegr.

Dylai comisiynwyr Cymru a sefydliadau perthnasol yng Nghymru gael eu cynnwys pan fo digwyddiad yn effeithio ar breswlydd yng Nghymru neu ar lwybr gofal y maent yn ei gomisiynu.

Mae angen hefyd i hysbysiadau iechyd cyhoeddus, gwybodaeth ddiogelu a rhybuddion diogelwch symud yn ddibynadwy ar draws y ffin. Mae hyn yn cynnwys hysbysu Iechyd Cyhoeddus Cymru yn brydlon pan fo preswylwyr Cymru sy'n cael triniaeth yn Lloegr yn dioddef o glefydau heintus neu gyflyrau eraill sy'n gofyn am ddilyniant iechyd cyhoeddus.

Rhaid i brofiad cleifion gynnwys preswylwyr Cymru sy'n defnyddio gwasanaethau yn Lloegr, a rhaid ei rannu a'i ddefnyddio i sbarduno gwelliant

Ni ddylai darparwyr yn Lloegr a Byrddau Gofal Integredig ddiffinio llais y claf drwy gyfeirio'n unig at eu poblogaethau preswyl.

Dylai fod yn glir bod dyletswyddau i gasglu ac ystyried barn pobl yn cynnwys pobl sy'n byw y tu allan i Loegr ond sy'n defnyddio gwasanaethau yn Lloegr. Dylai gwybodaeth am brofiadau cleifion allu nodi profiadau pobl sy'n byw yng Nghymru fel bod patrymau, anghydraddoldebau a phryderon cylchol yn weladwy.

Nid yw casglu adborth yn unig yn ddigon. Rhaid i wybodaeth am brofiadau pobl gyrraedd y sefydliadau sy'n gallu gweithredu arni.

Pan fydd darparwr yn Lloegr yn darparu gwasanaethau a gomisiynwyd ar gyfer preswylwyr Cymru, dylai'r trefniadau:

- nodi adborth a phrofiadau sy'n ymwneud â phobl sy'n byw yng Nghymru;
- dadansoddi themâu cylchol, anghydraddoldebau a gwahaniaethau mewn profiad;
- rhannu gwybodaeth berthnasol gyda'r bwrdd iechyd neu gorff GIG Cymru sy'n comisiynu'r gwasanaeth;

- rhannu gwybodaeth briodol gyda Llais fel y corff statudol sy'n cynrychioli pobl sy'n byw yng Nghymru;
- defnyddio'r wybodaeth wrth fonitro ansawdd, gwella gwasanaethau a chomisiynu yn y dyfodol; ac
- hysbysu cleifion a'r cyhoedd am yr hyn sydd wedi newid o ganlyniad.

Dylai hyn gynnwys dysgu o gwynion, digwyddiadau, gweithgarwch ymgysylltu a phrofiadau a adroddir gan gleifion. Dylai unrhyw swyddogaeth genedlaethol sy'n ymwneud â phrofiad cleifion ddangos sut mae profiadau pobl yn dylanwadu ar flaenoriaethau, dyluniad gwasanaethau, comisiynu a gwelliant.

Rhaid i gomisiynwyr Cymru allu deall ansawdd a phrofiadau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau y maent yn eu hariannu. Gall Llais nodi patrymau'n annibynnol, cynrychioli buddiannau pobl a phwyso am welliannau lle bo angen.

Dylai'r trefniadau gydnabod rôl statudol Llais

Dylai pobl sy'n byw yng Nghymru barhau i gael mynediad at lais annibynnol a chydlynol effeithiol pan fydd y gofal GIG y maent yn ei dderbyn yn cael ei ddarparu yn Lloegr. Mae cyfrifoldeb statudol Llais i adlewyrchu barn ac i gynrychioli buddiannau pobl sy'n byw yng Nghymru yn dilyn yr unigolyn ac ni ddylai ddod i ben oherwydd bod ei ofal GIG yn cael ei ddarparu yn Lloegr.

Mae trefniadau'r Bil ar gyfer llais y claf ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar gyrff o fewn system Lloegr. Nid ydynt yn cydnabod cyrff statudol llais cleifion cenhedloedd eraill y DU. Mae hyn yn creu risg y bydd cleifion sy'n byw yng Nghymru yn llai gweladwy o fewn y trefniadau newydd.

Mae Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 eisoes yn gosod dyletswyddau ar gyrff y GIG yn Lloegr i gynnwys defnyddwyr gwasanaethau, yn uniongyrchol neu drwy eu cynrychiolwyr, wrth gynllunio gwasanaethau, datblygu cynigion ar gyfer newid gwasanaethau a gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaethau. Mae'r dyletswyddau hyn yn berthnasol i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG yn Lloegr, gan gynnwys pobl sy'n byw yng Nghymru ac sy'n derbyn gofal gan ddarparwyr y GIG yn Lloegr.

Fodd bynnag, nid yw'r dyletswyddau hynny'n creu mecanwaith penodol i bobl sy'n byw yng Nghymru gael eu cynrychioli ar y cyd o fewn GIG Lloegr mewn perthynas â'u gofal GIG dydd i ddydd.

Nid y cwestiwn yw a yw preswylwyr Cymru yn ddefnyddwyr gwasanaeth at ddibenion dyletswyddau cynnwys yn Lloegr. Maent yn ddefnyddwyr gwasanaeth. Y cwestiwn yw a oes llwybr clir a dibynadwy i'w profiadau, eu pryderon a'u blaenoriaethau ar y cyd gael eu cydnabod, eu cynrychioli ac y gweithredir arnynt drwy Llais fel corff statudol llais pobl yng Nghymru.

Dylai'r Bil, y rheoliadau neu'r canllawiau statudol gydnabod rôl Llais pan fo gwasanaethau yn Lloegr yn cael eu darparu i bobl sy'n byw yng Nghymru. Dylai hyn gynnwys:

- trefniadau clir a chymesur sy'n galluogi Llais i ymgysylltu â phreswylwyr Cymru ar safleoedd GIG yn Lloegr;
- disgwyliadau y bydd darparwyr yn Lloegr a Byrddau Gofal Integredig yn derbyn ac yn ystyried sylwadau gan Llais;
- llwybr i Llais godi pryderon cylchol gyda darparwyr perthnasol, comisiynwyr a threfniadau cenedlaethol sy'n ymwneud â phrofiad cleifion;
- mynediad at wybodaeth briodol am brofiadau cleifion sy'n ymwneud â phreswylwyr Cymru; a
- chydweithredu rhwng Llais a threfniadau llais cleifion yn Lloegr.

Ni ddylai pobl sy'n byw yng Nghymru golli mynediad at lais effeithiol, cynrychiolaeth a her annibynnol oherwydd bod eu gofal GIG yn cael ei ddarparu yn Lloegr.

Rhaid peidio â gwanhau her annibynnol

Mae trosglwyddo swyddogaethau *Healthwatch England* i gyrff sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau yn codi pryder ehangach ynghylch annibyniaeth. Rhaid i lais y claf ddylanwadu ar benderfyniadau, ond rhaid hefyd fod llwybr annibynnol ac effeithiol ar gael er mwyn i adborth cyfunol gael ei godi a'i ddilyn drwodd.

Mae'r pryder hwn yn cael ei rannu'n ehangach gan sefydliadau cleifion megis Cymdeithas y Cleifion, sydd wedi pwysleisio bod yn rhaid i lais y claf barhau i fod yn annibynnol, yn atebol ac yn gallu herio'r system.

I bobl sy'n byw yng Nghymru, mae hyn yn atgyfnerthu'r achos dros gydnabod rôl statudol annibynnol Llais yn benodol, ac am drefniadau clir lle mae llunwyr polisïau, comisiynwyr a darparwyr yn Lloegr yn gweithio gyda Llais ac yn ymateb i'w sylwadau ynghylch y materion sy'n bwysig i bobl sy'n byw yng Nghymru.

Wrth i drefniadau cynrychiolaeth gleifion ddatblygu yn Lloegr, bydd yn bwysig sicrhau bod safbwyntiau annibynnol cleifion, gan gynnwys rhai o Gymru, yn parhau i lywio prosesau gwneud penderfyniadau, craffu a gwella gwasanaethau.

Rhaid i hawliau, cyfrifoldebau a llwybrau cwynion fod yn glir i bobl

Mae pobl yn dweud wrthym nad ydynt yn siŵr pa drefniadau amseroedd aros sy'n berthnasol iddynt, a ydynt yn gymwys ar gyfer gwasanaethau neu raglenni sgrinio penodol, pa sefydliad a gomisiynodd eu gofal, na ble i wneud cwyn.

Gall prosesau cwyno gwahanol a threfniadau Ombwdsmon gwahanol ychwanegu at y dryswch.

Pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le, nid yw bob amser yn glir pwy sy'n gyfrifol, ble y dylid codi pryderon nac ym mha ffordd y cânt eu trin. Bydd gwybodaeth glir, llwybrau syml ar gyfer codi pryderon a thryloywder ynghylch cyfrifoldebau yn bwysig er mwyn cynnal hyder y cyhoedd. Ni ddylai fod yn rhaid i bobl ganfod pa sefydliad a gomisiynodd eu gofal, pa awdurdodaeth sy'n berthnasol na pha ran o'r llwybr gofal a achosodd y broblem cyn y gallant godi pryder a derbyn ymateb effeithiol.

Dylid cymhwyso amcanion y Bil mewn perthynas â chynnwys, dewis a phrofiad y claf i gleifion trawsffiniol drwy wybodaeth glir a safonol a ddarperir adeg atgyfeirio. Dylai hyn egluro trefniadau aros, mynediad digidol, cyfrifoldeb am

ofal, trefniadau cwynion ac adfer tegwch, a ble y gall pobl gael cymorth annibynnol.

Dylai cyfrifoldebau wrth atgyfeirio, triniaeth, rhyddhau a gwaith dilynol fod yn glir. Dylid ystyried profiad y claf ochr yn ochr â chanlyniadau clinigol.

Cyfrifoldebau yn dilyn diddymu GIG Lloegr

Mae trosglwyddo swyddogaethau oddi wrth GIG Lloegr yn creu cyfle ac yn cyflwyno risg. Gall egluro atebolrwydd a threfniadau gweithio, ond gall hefyd amharu ar berthnasoddd presennol a gadael cyfrifoldebau trawsffiniol yn aneglur neu heb eu cyflawni yn ystod y cyfnod pontio.

Dylai'r trefniadau newydd nodi'n glir ble mae'r cyfrifoldeb yn gorwedd rhwng Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y DU, Byrddau Gofal Integredig a darparwyr y GIG mewn perthynas â gofal iechyd trawsffiniol. Rhaid sefydlu a diogelu perthnasoddd allweddol drwy gydol y cyfnod pontio.

Trefniadau rhwng Cymru a Lloegr sydd eu hangen ochr yn ochr â'r Bil

Diogelu ac adnewyddu'r ffocws rhwng Cymru a Lloegr ar werthoedd ac egwyddorion

Mae'r Datganiad presennol o Werthoedd ac Egwyddorion rhwng Cymru a Lloegr yn helpu i osod y fframwaith ar gyfer sut mae cyrff y GIG yng Nghymru a Lloegr yn cydweithio, yn gwneud penderfyniadau ac yn gweithredu pan fo gofal yn croesi'r ffin. Mae'n darparu sail gyffredin bwysig ar gyfer gofal diogel, teg a chydgyssylltiedig.

Mae hyn yn bwysig oherwydd ni ddylai pobl wynebu oedi, dryswch nac anfantais oherwydd bod sefydliadau'n ansicr ynghylch cyfrifoldebau neu ynghylch pa drefniadau sy'n berthnasol i'w gofal. Rhaid diogelu'r gwerthoedd a'r egwyddorion hyn wrth i swyddogaethau symud o GIG Lloegr i drefniadau

newydd, heb unrhyw fwlch mewn cyfrifoldeb nac unrhyw wanhau ar ymrwymïadau presennol.

Dylid eu hadnewyddu hefyd i gyd-fynd â'r dirwedd newydd, gyda threfniadau llywodraethu, uwch gyfeirio a datrys anghydfodau clir fel nad yw gofal trawsffiniol yn dibynnu ar ewyllys da, perthnasoedd lleol nac unigolion yn mynd yr ail filltir.

Dylai'r trefniadau diwygiedig hefyd nodi trefniadau clir ar gyfer llais y claf a dysgu trawsffiniol. Dylai hyn gynnwys sut mae darparwyr yn Lloegr, Byrddau Gofal Integredig, comisiynwyr Cymru, Llais a chyrrff perthnasol sy'n cynrychioli llais cleifion yn rhannu gwybodaeth am brofiadau cleifion Cymreig, yn ymateb i sylwadau, yn uwch gyfeirio pryderon systemig ac yn adrodd ar welliannau a wnaed.

Darpariaeth Gymraeg

Dylai trefniadau ar lefel Cymru a Lloegr gydnabod pwysigrwydd y Gymraeg ym maes gofal iechyd, gan gynnwys ei pherthnasedd i urddas, dealltwriaeth, cyfranogiad a diogelwch.

Mae Llais yn clywed yn rheolaidd am bwysigrwydd gwasanaethau Cymraeg i brofiad pobl o ofal. I lawer o bobl, nid dewis yn unig yw gallu cyfathrebu yn Gymraeg, ond rhan bwysig o dderbyn gofal iechyd diogel, effeithiol ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Dylai trefniadau diwygiedig sicrhau bod anghenion cyfathrebu pobl, gan gynnwys eu hanghenion ieithyddol, yn cael eu nodi adeg atgyfeirio. Dylai'r wybodaeth hon gael ei chynnwys yng nghofnod gofal yr unigolyn a'i rhannu â darparwyr yn Lloegr fel bod cymorth priodol ar waith pan fydd pobl sy'n byw yng Nghymru yn derbyn gofal yn Lloegr.

Gwybodaeth glir i'r cyhoedd

Dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fod ar y cyd yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth glir i'r cyhoedd ynghylch hawliau a chyfrifoldebau trawsffiniol. Dylai cyrrff y GIG yng Nghymru, darparwyr yn Lloegr a chyrrff eraill y GIG gyfathrebu'r wybodaeth honno'n gyson.

Gall Llais nodi dryswch, atgyfnerthu profiadau pobl a darparu her annibynnol, ond ni ddylai gymryd lle cyfrifoldeb ffurfiol llywodraethau, comisiynwyr a darparwyr i gyfathrebu'n glir.

Diwygiadau diweddarach i'r Bil yn ymwneud â diwygio rheoleiddio'r MHRA

Ers i'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol gael ei osod, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno diwygiadau pellach i'r Bil sy'n ymwneud â'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA).

I bobl sy'n byw yng Nghymru, y mater allweddol yw sut y bydd unrhyw newidiadau rheoleiddiol yn y dyfodol yn effeithio ar ddiogelwch cleifion, mynediad at arloesedd, rhannu gwybodaeth a hyder y cyhoedd.

Dylai Cymru gael ei chynnwys wrth ddatblygu unrhyw newidiadau rheoleiddiol yn y dyfodol o dan y diwygiadau hyn, a dylid cynnwys pobl sy'n byw yng Nghymru lle gallai newid o'r fath effeithio ar eu gofal, eu diogelwch neu eu mynediad at arloesedd.

Byddem hefyd yn annog ystyriaeth o sut y gall gwybodaeth am brofiad a diogelwch cleifion gyfrannu at fonitro a gwerthuso unrhyw drefniadau rheoleiddiol yn y dyfodol. Yn aml, mae pobl yn nodi pryderon sy'n dod i'r amlwg drwy eu profiadau o driniaethau, meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol, a rhaid defnyddio'r mewnwelediadau hyn fel ffynhonnell bwysig o ddysgu a gwella.

I gloi

Mae'r Bil yn creu cyfle i fynd i'r afael â phroblemau hirsefydlog y mae pobl sy'n byw yng Nghymru yn eu profi pan fo'u gofal yn croesi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr, ond ni fydd y manteision hynny'n digwydd yn awtomatig.

Dylid barnu diwygio strwythurol ar sail a yw'n gwella profiad pobl o ofal. I bobl sy'n byw yng Nghymru, nid yw'r prawf ymarferol yn ymwneud ag a yw cyfrifoldebau sefydliadol wedi newid, ond a yw gofal yn fwy diogel, yn haws ei

lywio, yn well ei gysylltiad ac yn fwy ymatebol pan fo llwybr gofal yn ymestyn ar draws Cymru a Lloegr.

Dylai'r gweithredu sicrhau bod gwybodaeth yn dilyn yr unigolyn, bod hawliau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd yn glir (gan gynnwys pan fydd pethau'n mynd o'u lle), bod dysgu o faterion diogelwch cleifion yn croesi ffiniau sefydliadol a chenedlaethol, a bod lleisiau a phrofiadau preswylwyr Cymru yn cael eu clywed ac y gweithredir arnynt, gan gynnwys drwy gynrychiolaeth annibynnol effeithiol yn Lloegr.

Dylai'r trefniadau hyn fod yn berthnasol i bawb sy'n byw yng Nghymru ac sy'n derbyn gofal gan y GIG yn Lloegr, nid yn unig i'r rhai sy'n byw mewn cymunedau ar y ffin. Dylent gael eu cefnogi gan drefniadau clir ac effeithiol rhwng Cymru a Lloegr fel nad yw gofal diogel, teg a chydgysylltiedig yn dibynnu ar ewyllys da nac ar unigolion yn llywio cymhlethdodau ar ran cleifion.

Dylai pobl sy'n byw yng Nghymru brofi gofal diogel, teg a chydgysylltiedig, a chael llais effeithiol ynddo, waeth ar ba ochr i'r ffin y darperir y gofal hwnnw.